



Dreigiau Amrywiaeth - rygbi *i bob* plentyn gweld tudalen 3



merthyrtydfilCBC



@MerthyrCBC



merthyr.gov.uk



CORFFORAETHOL

Croeso i rifyn yr Haf
Cylchgrawn Cymunedol
Cyswllt

Gobeithio bod pawb wedi llwyddo i gadw'n ddigon oer ac yn iach yn ystod y cyfnod hwn o dywydd poeth. Gwiriwch y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn eich cymunedau a rhowch wybod i ni os oes angen cymorth arnynt.

Mae wedi bod yn ychydig fisoedd digon prysur gyda llawer yn digwydd ar draws ein Bwrdeistref Sirol.

Ar dudalen 6 fe welwch ddiweddariad ar ddatblygiadau diweddaraf y pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful a dolenni i'r wefan berthnasol ar aelodaeth a phrisiau. Mae disgwyl i'r pwll agor yr hydref hwn.

Fel Cyngor rydym yn falch o gefnogi'r gymuned LHDTCIA+. Er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o Fis Balchder codwyd baner yr enfys y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig i ddathlu amrywiaeth o fewn ein cymunedau. Ymunodd swyddogion ac aelodau'r Cyngor hefyd ag awdurdodau lleol cyfagos yng Ngorymdaith Pride Cymru fel rhan o rwydwaith 'Cyngor Balch'. Ceir manylion am hyn ar dudalen 7.

Rydym hefyd yn falch o gefnogi Wythnos y Lluedd Arfog. Bob blwyddyn ym mis Mehefin mae baner y Lluedd Arfog yn cael ei chodi y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig i ddangos ein cefnogaeth i filwyr sy'n gwasanaethu, teuluoedd y lluedd arfog, cyn-filwyr, a chadetiadau.

Mae cyllid wedi dod ar gael fel rhan o Gronfa Ffyniant Cyffredin Llywodraeth y DU lle gall busnesau, mentrau cymdeithasol, grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon gael mynediad at grantiau rhwng £500 ac £20,000. Yn y rhifyn nesaf byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y nifer sy'n manteisio ar y grantiau hyn a'r sectorau y mae wedi'u cefnogi.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio tuag at y nod o fod yn garbon niwtral erbyn 2023 ac mae gwaith gwyblyd wedi'i wneud eisoes i gyflawni hyn. Ewch i dudalen 5 am fanylion pellach.

Yn olaf, hoffwn gydnabod gwaith caled ac ymroddiad ein Maer ymadawol, y Cyngorydd Declan Sammon. Rhoddodd bopeth i'r rôl ac roedd yn bendant yn glod i'n Bwrdeistref Sirol! Gweler tudalen 2 am wybodaeth ar faint y cododd Declan yn ystod ei flwyddyn yn y swydd. Pob lwc i'r Maer newydd, y Cyngorydd Malcolm Colbran yn ystod ei flwyddyn fel Maer.

Mwynhewch haf ffantastig.

G. Thomas

Y Cyngorydd Geraint Thomas
Arweinydd

Malcolm yn faer
Merthyr am yr
eildro

Mae'r Cyngorydd Malcolm Colbran wedi ei ethol yn Faer Merthyr Tudful am yr eildro mewn tair blynedd ar ol i Covid-19 ei rwystro rhag cyflawni'r rol yn llawn yn 2021-22.

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Cyngor ddydd Mercher 17 Mai 2023, cymerodd y cyn Ddirprwy Faer, y Cyngorydd Colbran, yr awenau oddi wrth y Cyngorydd Declan Sammon fel Dinesydd Cyntaf y Fwrdeistref Sirol.

Ar ôl cael ei fagu yn Hailsham, Sussex, symudodd Malcolm i Ferthyr Tudful i gymryd Swyddfa Bost Bedlinog yn 2003. Mae wedi cynrychioli ward etholiadol Bedlinog ers 2017.

"Er y byddaf bob amser yn falch o fy ngwreiddiau yn Sussex, rwyf yr un mor falch o fod yn Gymro anrhydeddus a dinesydd o Ferthyr Tudful," meddai.

Cymar Malcolm ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2023-24 yw Nicola Bridges, a wasanaethodd hefyd fel ei Gyfarwyddwr y tro diwethaf.

Bydd dyletswyddau'r Maer newydd yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd y cyngor llawn a chynrychioli'r awdurdod ar achlysuron ffurfiol a seremonïol ledled y fwrdeistref sirol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd hefyd yn croesawu ymwelwyr i Ferthyr Tudful ac yn mynychu ac yn cefnogi

digwyddiadau a drefnir gan bobl a sefydliadau lleol.

Mae wedi dewis cefnogi dwy elusen leol: #4Tomas, a sefydlwyd gan deulu Tomas David Smerdon o Fedlinog, a fu farw yn 2019 yn ddim ond 22 oed. Mae'r elusen yn helpu pobl ifanc eraill sy'n dioddef o orbryder, iselder, meddyliau hunanladdiad a chamddefnyddio sylweddau sy'n achosi problemau iechyd meddwl gyda sesiynau cwnsela a grwpiau cymorth; yr ail elusen yw Cyfeillion Greenfield, sy'n codi arian i ddarparu cyfleusterau ychwanegol i Ysgol Arbennig Greenfield.

Y Dirprwy Faer am y flwyddyn nesaf yw'r Cyngorydd John Thomas, aelod ward y Dref, a'i wraig Debbie fydd ei Ddirprwy Faeres. Mae John yn adnabyddus ym Merthyr Tudful fel tafarnwr, dyfarnwr pêl-droed a rhedeg y

llinell i Gyngrhair Cymru, ac ar hyn o bryd yn berchennog busnes tacsis.

Os hoffech wahodd y Maer i ddigwyddiad, cysylltwch â mayoral@merthyr.gov.uk



Cyflwyno'r Mae'r Ieuencid

Mae Katy Richards sy'n 16 oed ac yn fyfyrwr yn Ysgol Gatholig Bendigaidd Carlo Acutis (yr Esgob Hedley gynt) yn 13eg Maer Ieuencid Merthyr Tudful.

Daeth Dylan Morgan Thomas sy'n 16 oed ac yn fyfyrwr yn Ysgol Rhydywaun yn Ddirprwy Faer Ieuencid.

Yn ei haraith dderbyn, amlinellodd y Maer Ieuencid ei thri addewid ar gyfer ei thymor yn y swydd. Roedd ei haddewid cyntaf yn bersonol iawn iddi i godi ymwybyddiaeth a datblygu cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl pobl ifanc.

Ail addewid Katy yw gweithio gydag, a herio addysg ar gyfer pobl ifanc drwy sicrhau bod iechyd meddwl a lles pobl ifanc yn uchel ar yr agenda ac yn ffocws allweddol mewn ysgolion, gan sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth i fod y 'gorau y gallant fod'.

Trydedd addewid Katy yw codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo hawliau cyfartal i'r bobl ifanc hynny ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sy'n ystyried eu hunain yn anabl.

Dywedodd Katy, "Rwy'n angerddol iawn am y mater

hwn gan fod gennyf nam clyw difrifol ac ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) felly, mae'n bwysig sicrhau newid cadarnhaol a fydd o fudd i bobl ifanc".

Mae Katy yn aelod o Fforwm Ieuencid Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a hoffai i fwy o bobl ifanc gymryd rhan yn y fforwm.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut i gymryd rhan, cysylltwch â Swyddogion Cyfranogiad Cymorth Ieuencid, Chloe Rees neu Morgan Ellis Watkins ym Safer Merthyr ar 01685 353999 neu cysylltwch â ni drwy ein Facebook, Instagram neu Twitter @MTYouthforum.

Y Maer sy'n ymadael
yn codi dros £15,000

Cododd y Maer sy'n ymadael o Ferthyr Tudful £15,885 i'w ddwy elusen yn ei gyfnod fel Maer yn 2022/23.

Bydd y Cyngorydd Declan Sammon, a drosglwyddodd yr awenau i'r Cyngorydd Malcolm Colbran yng Nghyfarfod Blynnyddol y Cyngor yr wythnos diwethaf, yn cyflwyno Cancer Aid Merthyr Tudful a Banc Bwyd Merthyr Cynon gyda'r arian a gasglwyd mewn ystod o weithgareddau a digwyddiadau.

Dwedodd Declan: "Roedd yn ffrainth gwasanaethu fel Prif Ddinesydd y Fwrdeistref Sirol arbennig hon a braint gallu codi arian dros ddwy elusen haeddiannol. Diolch i bawb a gyfrannodd."



Y Comisiwn Etholiadol

Dewch ag ID Ffotograffig gyda chi i bleidleisio mewn rhai etholiadau

Mae'n rhaid i bleidleiswyr yng Nghymru ddangos ID ffotograffig yn yr orsaf bleidleisio er mwyn pleidleisio mewn rhai etholiadau.

Mae hyn ond yn gymwys i:

- Etholiadau Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau
- Is-etholiadau Senedd y DU
- Deisebau adalw

O fis Hydref 2023 ymaen, bydd hefyd yn gymwys i etholiadau cyffredinol Senedd y DU.

Ni fydd yn rhaid i chi ddangos ID ffotograffig i bleidleisio yn etholiadau'r Senedd neu mewn etholiadau cyngorau lleol.

Beth os nad oes gennych ID? Gwnewch gais am ID pleidleiswr rhad ac am ddim. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i comisiwnetholiadol.org.uk/cy/id-pleidleiswr

QR code

Dathlwch ddydd Santes
Tudful gyda ni

Ddydd Mercher Awst 23, am y tro cyntaf byddwn yn dod at ein gilydd ym Merthyr Tudful i ddathlu Diwrnod Santes Tudful. Ymunwch gyda ni yn Hen Eglwys y Plwyf Santes Tudful am wasanaeth arbennig o 11:00am, clywed y clychau yn canu a'r côr yn canu i ddathlu'r achlysur cofiadwy.

Fe fydd amryw o weithgareddau hwyl ar dir yr eglwys, yn cynnwys bwyd blasus ar gael, arddangosfeydd hanesyddol, stondinau crefft a dysgu mwy am hanes lleol, trefnadaeth a diwylliant.

Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad, ewch at www.welovemerthyr.net



Os oes angen cymorth arnoch gyda chostau byw, ewch i'n tudalennau gwe pwrpasol merthyr.gov.uk/cost-of-living am gyngor. Fel arall gallwch ffonio

01685 725000

Ymunwch â'n Panel ar-lein i
Ddinasyddion

Mae hwn yn gyfle cyffrous i gynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau lleol!

Rydym yn gwahodd preswylwyr i ymuno â ni a bod yn rhan o wella bywydau'r rheini

sydd yn byw a gweithio ym Merthyr Tudful.

Bydd y panel hwn yn gymorth i ni ddeall safbwyntiau'n preswylwyr ar amrywiaeth eang o faterion fel darpariaeth ein

gwasanaethau rheng flaen, yr amgylchedd a'r economi leol.

Bydd adborth o'r panelu yn hysbysu'n penderfyniadau ac yn ein cynorthwyo i wneud y pethau iawn er mwyn cyflawni anghenion pobl leol.

Nid oes angen fawr o ymroddiad; byddwch yn cael eich gwahodd i gyfranogi ar-lein mewn arolygon barn, er enghraifft

a gallwch ddewis pa weithgareddau yr hoffech fod yn rhan ohonynt.

Os oes gennych ddiddordeb i fod yn rhan o hyn, e-bostiwch corporate.communications@merthyr.gov.uk

Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu.



GOFAL CYMDEITHASOL

Nadroedd ac Ysgolion- Y Pandemig Arall

Roedd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful,artneriaid allweddol a phobl ifanc Merthyr Tudful awydd i wella iechyd meddwl a lles pobl ifanc sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol.

Derbyniodd y bartneriaeth 'Mind Our Futures' grant o £1.2m dros 5 mlynedd, gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, i hwyluso prosiect newydd cyffrous ymhlith pobl ifanc Merthyr Tudful... 'Nadroedd ac Ysgolion - Y Pandemig Arall'

Mae arian y Loteri yn galluogi'r Cyngor i gyd-gynhyrchu'r fenter hon gyda'i bartneriaid, a gyda phobl ifanc 11-25 oed, sydd hefyd â diddordeb mewn gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn y Fwrdeistref Sirol.

Ar hyn o bryd mae'n dal i gael ei ddatblygu, mae'r prosiect wedi cael dechrau rhagorol. Mae pobl ifanc yn gweithio gyda phartneriaid prosiect ac wedi ffurfio 'Panel Cyngori Ieuencid'.

Mae'r Panel yn cyfarfod yn fisol; mynychu hyfforddiant ar gyfer y tasgau

sydd i ddod; dysgu ac ymchwilio ar y cyd i arwain ac arwain datblygiad y prosiect yn y dyfodol. Maent yn gyffrous ac yn angerddol i glywed gan bob person ifanc yn y Fwrdeistref Sirol ac i leisio eu barn ar y cyd!



Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Janice Watkins, Cydlynnydd Prosiect: 07949 684 130 neu e-bostiwrch jw3@smt.org.uk



Hawliwch help

Os ydych yn gymwys i gael erail hefyd.
Cinio Ysgol Am Ddim, gallech I ddysgu mwy: www.llyw.cymru/
gael help gyda Hanfodion Ysgol yma-i-helpu-gyda-chostau-byw



Dreigiau Amrywiaeth

Mae Dreigiau Amrywiaeth yn ddarpariaeth rygbi gynhwysol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol a leolir ym Merthyr Tudful. Mae Dreigiau Amrywiaeth ar gyfer pob plentyn sydd angen y gofod, amser a rhyddid i wneud eu peth eu hunain mewn amgylchedd rheoledig.

Rydym yn cynnig amgylchedd hamddenol sy'n galluogi pob

plentyn ar bob lefel i fwynhau eu hunain yn fawr ond hefyd yn cael blas ar gemau rygbi lle gall rhieni gymryd rhan.

Mae Dreigiau Amrywiaeth yn cael ei redeg gan wirfoddolwyr yn unig.

Cafwyd cyllid cychwynnol o grantiau chwaraeon a chyfleoedd nawdd trwy fusnesau lleol.

Fodd bynnag, rydym yn trefnu cymaint o ddigwyddiadau codi

arian trwy gydol y flwyddyn ag y gallwn i'n galluogi i barhau â'n sesiynau ar lefel uchel.

Os hoffech fynychu neu gefnogi mewn unrhyw ffordd, anfonwch e-bost admin@diversitydragons.co.uk neu ewch i'r wefan www.diversitydragons.com

Diolch am eich cefnogaeth gyson!



Gweithio gydan gilydd i hyrwyddo bywyd iach, cefnogi lles cadarnhaol a gwella ymgysylltiad ag addysg a'r ysgol yn ystod gwyliau'r haf.



Beth yw Bwyd a Hwyl?

Mae Bwyd a Hwyl yn rhaglen addysg yn yr ysgol sy'n darparu addysg am fwyd a maeth, gweithgarwch corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau bwyd iach i blant yn ystod gwyliau'r haf.

Gan ddechrau fel cynllun pellol gan Gyngor Caerdydd yn 2015, mae Bwyd a Hwyl wedi datblygu'n rhaglen genedlaethol wedi'i hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei gweithredu gan Gymdeithas Lywodraeth Leol Cymru (CLLC). Yn 2021, bu 137 o ysgolion yn darparu'r rhaglen gan ddarparu mwy na 7,500 o leuedd i blant bob dydd y bu'n rhedeg.

Mae Lywodraeth Cymru wedi ymrwngwng i ariannu SHEP yn 2022 gyda £4.85 miliwn wedi ei ddynwng yn y gyllideb. Fe fydd CLLC yn parhau i gydlyn cyflwyno'r cynllun drwy wellfio'n agos gydag awdurdodau lleol ac asiantaethau partner.

"Fe wnes i wr fwynhau fy amser yn Bwyd a Hwyl. Mae wedi fy nghwsgu'n brys ac yn foddol ac mi fyddwn i'n hof i rddio bara am fwy o amser."

Beth yw Canlyniadau Bwnedig Bwyd a Hwyl?

- lechedd meddwl a lles emosiynol gwell
- Ymgysylltiad ysgol a chyrhaeddiad addysgol
- Dyheadau gwell
- Gweithgarwch corfforol gwell
- Ymddygiad dietegol gwell.



"Mae fy mhleidyddi wedi cael llawer o hwyl yn Bwyd a Hwyl ac yn treulio amser gyda ffrindiau yn hytrach na gartref ar ei ffen neu lechen."

Beth yw prif fanteision Bwyd a Hwyl?

- Mae'r cynlluniau'n annog plant i fod yn fwy actif dros yr haf
- Gwelliannau o ran deietau plant
- Gwneud ffrindiau newydd a chael hwyl
- Dysgu ac ymgysylltu â'r ysgol
- Gwella iechyd a lles rhieni
- Rhieni'n dysgu sgiliau newydd
- Cynnwys yr holl deulu
- Hwyluso cydweithredu rhwng asiantaethau
- Gwneud defnydd gwell o gyfleusterau presennol
- Annog ymgysylltu â'r gymuned
- Cynnig cyflogaeth am dâl a gwirfoddol
- Cyfeirio at wasanaethau eraill
- Helpu rhieni i dalu costau gwyliau'r ysgol

"Gwasanaeth gwych a help mawr dros y gwyliau. Maen cael y plant allan o'r ty ac yn symud a dysgu am fwyd a lles iach."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â...

DYSGU

Siarter Hinsawdd: 10 addewid i gynorthwyo'n planed

Mae plant a phobl ifanc Merthyr Tudful wedi lansio 'Siarter Hinsawdd' Ysgolion Merthyr Tudful.

Mewn cynhadledd i fyfyrwyr a gynhaliwyd fis Gorffennaf, rhannodd disgyblion o flynyddoedd 4 i 10 eu syniadau ynghylch yr hyn y gallai ysgolion eu gwneud er mwyn cynorthwyo'r argyfwng byd eang.

Trwy amrywiaeth o weithdai gan sefydliadau lleol, elusennau a busnesau, derbyniodd y myfyrwyr heriau i ddynodi deg ymrwymiad fyddai'n eu galluogi i ymdrin â'r argyfwng hwn.

Yn unol â Chwricwlwm Cymru, bu'r plant yn meddwl fel dinasyddion cyfrifol gan wneud dewisiadau cadarnhaol allai gynorthwyo i achub y byd.

Mae Siarter yr Hinsawdd yn cynnwys 10 ymrwymiad sydd yn cynnwys amrywiaeth o bynciau ar gynaliadwyedd:

- Parhewch i ddysgu
- Arwain
- Lleihau plastig
- Cydweithio â'r gymuned



- Tyfu planhigion a bwyd
- Dewis trafniadaeth gynaliadwy
- Lleihau ynni
- Lleihau. Ailddefnyddio. Ailgylchu
- Annog bioamrywiaeth
- Cysylltu ag ysgolion eraill

Bydd y Siarter yn grymuso ysgolion, eu disgyblion a'u cymunedau i ddewis a chynllunio'u rhan a gweithredu er budd yr hinsawdd. Gall ysgolion ymroi i weithredu mewn ffyrdd bychain. O ganlyniad i'w hymgyssylltiad, byddant yn cyflawni deiliannau gwych a chreu Merthyr Tudful sydd yn lân a gwyrd d a sicrhau gwell dyfodol i'r byd.

Dywedodd y Cyngorydd Michelle Symonds, Hyrwyddwr Newid Hinsawdd:

"Mae plant a phobl ifanc Merthyr Tudful yn arwain y ffordd a bydd eu gwaith yn cyfrannu at y broblem fydd eang hon. Efallai fod y 10 addewid yn ymddangos yn fach ond os gall pawb yn ein cymunedau eu cefnogi, gallwn wneud gwahaniaeth. Edrychaf ymlaen at glywed rhagor am waith ein hysgolion a'n cymunedau."

Mae Ysgol Gynradd Coed y Dderwen wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygu'r Siarter. Roeddent am sicrhau fod yr iaith yn glir ac y gallai bawb ddeall a chyfrannu. Cyfrannodd Ysgol Uwchradd Cyfarthfa yn ogystal gan rannu eu teimladau a'u safbwyntiau.

Mae Siarter Hinsawdd yr Ysgolion yn galw am weithredu. Gallwn weithredu. Gallwn wneud gwahaniaeth.

Paratowch am wledd yr haf hwn yng Ngyl Fwyd Merthyr

Ym mis Gorffennaf eleni, cynhelir gŵyl fwyd yng nghanol tref Merthyr Tudful; gŵyl sy'n addo gwledd o bleser i bawb sy'n mynychu – byddwch yn gadael y lle yn llond eich bol ac yn wên i gyd.

unig Bydd cyfle i deuluoedd fwynhau gweithgareddau megis paentio wynebâu, gweithdai syrca, cewch eich hudo gan gonsuriwyr, eich swyno gan sŵn y band dur a llawer yn rhagor.

Dyma ddiwrnod perffaith i'w fwynhau gyda'ch teulu a'ch ffrindiau. Mynediad YN RHAD AC AM DDIM a dim ond £1 i barcio drwy'r dydd ym mhob un o feysydd parcio talu ac arddangos y dre. Sbor!

Bachwch eich cyfle! **Cynhelir Gyl Fwyd Merthyr am 10am dydd Sadwrn Gorffennaf 22 2023 yn Sgwâr Penderyn.**

Photo Credit: Patrick Olnier



ADFYWIO

Ymchwiliadau tipio anghyfreithlon yn arwain at droseddwr yn y llys

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae 25 o ymchwiliadau troseddol i dipio anghyfreithlon wedi arwain at 19 achos wedi'u cyfeirio i'w herlyn, gyda chwe Hysbysiad Cosb Benodedig o £400 wedi'u talu a dirwyon o bron i £1,500 wedi'u gorchymyn. Mae saith achos

arall yn aros i gael eu clywed.

Dywedodd y Cyngorydd Michelle Symonds, Aelod Cabinet dros Adfywio, Tai a Diogelu'r Cyhoedd: "Mae'n wych gweld bod pobl yn cael eu dwyn o flaen eu gwell oherwydd yr amarch amlwg hwn tuag at ein cefn gwlad hardd.

Mae Ysgol Gynradd Troed-y-Rhiw yn Ysgol Aur o ran Ymgysylltu â'r Gymuned

Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Troed-y-Rhiw'n falch i lansio ei siop Carwyd Ynghynt, Bron yn Newydd, y cyntaf o ddau gynhwysydd llongau i'w agor ar Stryd Fawr Troed-y-Rhiw.

Mae Carwyd Ynghynt, Bron yn Newydd yn cynnig dillad ail-law o safon dda a gwisg ysgol i'r gymuned leol drwy wasanaeth 'talwch hynny a allwch', sy'n golygu bod teuluoedd yn rhoi eitemau nad sydd arnynt eu hangen bellach ac yn talu hynny a allant amdanynt. Amrediad oedran y dillad sydd ar gael yw newydd-anedig hyd 16 mlwydd oed. Mae'r safon yn amrywio, ceir rhai eitemau newydd sbon a'r label yn dal i fod arnynt.

Bydd yr ail gynhwysydd yn bantri bywyd o'r enw Bocs Bwyd Mawr a bydd yn agor yn ystod y misoedd nesaf. Drwy weithio mewn partneriaeth â FareShere Cymru, byddant yn darparu bywyd i'r gymuned leol am bris isel, fforddiadwy neu'n rhad ac am ddim.

Meddai Rebecca Evans, Dirprwy Bennaeth ac awreinydd y prosiect

Ymgysylltu â'r Gymuned;

"Mae'r Stryd Fawr yn brosiect mor bwysig i ni. Rydym yn gwybod y bydd y ddwy siop gymunedol o fewn y cynhwysyddion hyn yn cefnogi ein teuluoedd ar adeg pan fod pethau'n heriol iawn a chostau byw'n afreolus.

Hoffem wneud ein gorau i sicrhau bod gan ein plant ddillad a bwyd heb achosi cynnydd mewn costau i'r teuluoedd. Yn ogystal â chefnogi'r gymuned yn ariannol, mae hwn hefyd yn brosiect sy'n ymwneud â chynnaladwyedd, oherwydd byddwn yn atal dillad rhag mynd yn wastraff ac mae'r pantri bywyd yn atal bwyd dieisiau rhag mynd at gladdfa sbwriel."



Adnewyddu Ysgol Pen Y Dre

Mae'r gwaith yn datblygu o ran prosiect adnewyddu sylweddol yn un o ysgolion Merthyr Tudful, prosiect sy'n paratōi'r ffordd ar gyfer dulliau adeiladu'r dyfodol parthed cyfleusterau addysgol yng Nghymru.

Morgan Sindall Construction enillodd y cytundeb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yr Haf diwethaf ar gyfer Ysgol Uwchradd Pen y Dre. Unwaith bydd y cytundeb wedi dwyn i ben dyma fydd y prosiect adnewyddu mawr cyntaf i gyflawni carbon sero net yng Nghymru.

Mae'r cynllun wedi ei ariannu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'i Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy sy'n anelu at fuddsoddi mewn, a gwella, cyfleusterau addysgol.

Dilynodd y newyddion gyhoeddad gan Aelodau Seneddol sydd wedi galw ar berchnogion i atal rhag dymchwel adeiladau er mwyn arbed carbon, a blaenoriaethu ôl-osod ac ail-ddefnyddio adeiladau dros ddymchwel ac ail-adeiladu. Bydd y prosiect yn defnyddio CarboniCa, teclyn digidol arloesol Morgan Sidall ar gyfer lleihau carbon, teclyn sy'n galluogi'r contractwr i gefnogi eu cwsmeriaid i ddatgarboneiddio cymunedau lleol.

Mae CarboniCa yn rhan o ddull Atebion



Deallus Morgan Sindall, dull sy'n dwyn ynghyd galluoedd digidol a dylunio plattform a dulliau adeiladu modern a theclynnau lleihau carbon arloesol er mwyn creu lleoliadau unigryw, cynaliadwy ac ysbrydoledig i'w cwsmeriaid.

Bydd y contractwr yn defnyddio'r ffrâm a'r strwythur sydd ohoni ac yn troi'r adeilad 50 mlwydd oed mewn i adeilad sy'n addas ar gyfer safonau modern, gan weithio'n agos gyda pheirianwyr sifil a phenseiri a gan ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Mae'r cynllun wedi ei greu er mwyn sicrhau'r lleihad eithaf mewn carbon gyda chymorth CarboniCa a bydd yn defnyddio pwmp gwres ffynhonnell aer a chyfarpar mecanyddol a thrydanol, sy'n golygu bydd yr adeilad yn rhedeg heb danwydd ffosil.

Adnewyddiad ysgol Pen y Dre yw un o'r rhai mwyaf yng Nghymru a bydd yn cynyddu maint yr ysgol o 800 i 1,100 lle i ddisgyblion rhwng 11 ac 16 mlwydd oed.

Bydd cynllun newydd yr ysgol uwchradd dri llawr 14,000 metr sgwâr yn golygu bod yr ysgol yn fwy hygyrch, bydd llawer o risiau'n cael eu tynnu o'r lleoliad gwreiddiol a bydd hwn yn gwella'r darpariaethau'n ddirfawr.



Enillodd Pen y Dre y Wobr Net Sero yng Ngwobrau Adeiladu Arbenigrwydd 2023

Ysgolion Bro

Yn dilyn cynllun treuliau gan Lywodraeth Cymru yng Ngwanwyn 2022, mae'r tîm Ysgolion Bro wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a'r gymuned ehangach ar hyd yr ardal sydd dan ofal ysgolion Pen y Dre a'r Bendigaidd Carlo Acutis. O fis Medi eleni ymlaen, bydd timau tebyg yn gweithio ar hyd ardaloedd y clwstwr o ysgolion uwchradd eraill yn ein bwrdeistref.

Mae agenda'r Ysgolion Bro yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru oherwydd maent yn disgwyl y bydd yr ysgolion yn fwy llwyddiannus wrth ymateb i ofynion y disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach drwy;

- adeiladu partneriaethau cryf gyda'r teuluoedd
- ymateb i anghenion eu cymunedau
- cydweithio'n effeithiol gyda gwasanaethau eraill


Cynhaliwyd Gŵyl Chwarae llwyddiannus iawn mewn partneriaeth â Thîm Chwarae'r awdurdod lleol a phrosiect 'Heini a Llund eich bol' Tai Merthyr Tudful, lle gwelwyd nifer anhygoel o unigolion - 248 ohonynt - yn mynychu digwyddiad cymunedol o weithgareddau di-ri yn Ysgol Pantyscallog.

Mae mentrau Aros a Chwarae wrthi'n cael eu treialu ar yn o bryd yn Ysgolion Cynradd Pantyscallog, Goetre a Sant Aloysius er mwyn hyrwyddo'r ysgolion hyn fel mannau chwarae.

Bu dros 400 o deuluoedd yn rhan o weithgareddau ymgysylltu drwy ysgolion cynradd a thrwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Yn ystod y gwyliau haf, mae pob ysgol yn y clwstwr gogleddol yn cynnal sesiynau Bwyd a Hwyl i'w disgyblion. Gallwch ddarllen rhagor am Fwyd a Hwyl yn y rhifyn hwn o Contact.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi darparu nawdd drwy grant er mwyn gwella cyfleusterau cymunedol mewn sawl ysgol ym Merthyr Tudful. Byddwn yn rhannu rhagor o newyddion am hwn dros y misoedd nesaf.

Os hoffai unrhywun gael rhagor o wybodaeth ynghylch ein Ysgolion Bro, cysylltwch â Lisa Burford lisa.burford@merthyr.gov.uk





GWASANAETHAU CYMDOGAETH

Ailgychu Masnacho yn cael ei dderbyn yn CAGC Dowlais

Os ydych chi'n fusnes sy'n gweithredu ym Merthyr Tudful, gallwch nawr gael gwared ar rai eitemau ailgylchadwy yn CAGC Dowlais.

Os ydych chi'n gwsmer casglu

ymyl y ffordd masnach ar hyn o bryd, mae gennych yr hyblygrwydd i ddefnyddio'r gwasanaethau ymyl y ffordd a'r Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Domestig – yn syml, cynhyrchwch eich nodyn

trosglwyddo gwastraff yn y GAGC i ddefnyddio'r gwasanaeth.

Os nad ydych yn gwsmer Gwastraff Masnach ar hyn o bryd, gallwch gofrestru drwy gysylltu â'r Swyddog Gwastraff Masnachol ar (01685) 725363. Codir tâl blyneddol o £46.60 am ddarparu nodyn trosglwyddo gwastraff blyneddol, sy'n ofyniad cyfreithiol.

Oeddech chi'n gwybod?

Fêps ac E-Sigaretts yw'r categori gwastraff sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, gyda dros filiwn yn cael eu taflu bob wythnos.

Sut i ailgylchu fêps ac E-Sigaretts:

- Tynnwch y batri a'i ailgylchu yn y bag ailgylchu batri porffor.
- Rhowch weddill yr uned (neu'r uned gyfan os na ellir tynnu'r batri) mewn bag clir.



- Rhowch y bag clir ar ben neu wrth ymyl eich cynwysyddion ailgylchu ymyl y ffordd.

- PEIDIWCH â rhoi'r bagiau hyn y tu mewn i unrhyw gynwysyddion ailgylchu.**

- Gellir cael gwared ar anwedd yn ein HWRCs hefyd.
 - Rhaid gosod batris yn y cynhwysydd batri.
 - Dylid gosod gweddill yr uned (neu unrhyw unedau cyfan na ellir eu gwahanu) yn y cynhwysydd offer domestig bach.
 - Gwiriwch gyda'n staff bob amser os ydych chi'n ansicr.

Ailgylchwch eich gwastraff bwyd

Mae ymchwil wedi dangos bod 30% o gynnwys biniau olwynion ein preswylwyr ar ddiwrnodau casglu yn wastraff bwyd.

Mae hyn yn cyfateb i tua 3,000 tonn o fwyd a anfonir i Ynni o Wastraff yn lle dulliau mwy cynaliadwy bob blwyddyn.

Os byddwn yn cyfeirio mwy o'r bwyd hwn drwy ein casgliadau gwastraff bwyd ymyl y ffordd i gyfleuster Treulio Anaerobig (TA), byddwn yn helpu i gynhyrchu ffynhonnell lân o drydan y gellir ei defnyddio i bweru cartrefi a busnesau ym Merthyr Tudful. Mae'r broses hon hefyd yn cynhyrchu treulid heb megawd sy'n cael ei ddefnyddio ar dir fferm Cymru i gynhyrchu cynydau.

Beth am drin bwyd yn y ffordd gywir:

- ✓ Prynwch yr hyn sydd ei angen arnoch i leihau gwastraff bwyd.
- ✓ Gwaredwch eich gwastraff bwyd yn y cynhwysydd cywir er mwyn ei anfon i greu trydan a gwella priddoedd..

Ffeithiau Bwyd!

- Gallai 32 croen banana wedi'u hailgylchu greu digon o ynni i bweru cartref cyffredin am awr.
- Gallai 12 bag te wedi'u hailgylchu greu digon o ynni i wefru tabled yn llawn.
- Gallai ailgylchu o wyth blwch cad i wastraff bwyd gynhyrchu digon o drydan i bweru oergell am 18 awr.
- Cynhyrchodd gwastraff bwyd wedi'i ailgylchu ddigon o ynni i bweru dros 10,000 o gartrefi yng Nghymru y llynedd yn unig!

Diweddariad ar Ffos-y-Fran:

(Sylwer bod y wybodaeth isod yn gywir adeg ei hargraffu. Am y diweddariadau diweddaraf ewch i wefan y Cyngor)

Ar 26 Ebrill 2023, gwrthododd Pwyllgor Cynllunio'r Cyngor y cais i ymestyn yr amser ar gyfer cloddio ac adfer mwynau yn Ffos-Y-Fran. Methodd y cynnig â bodloni prawf 'amgylchiadau cwbl eithriadol', yn groes i Bolisi Cynllunio Cenedlaethol a lleol.

Methodd hefyd â darparu cyfraniad digonol tuag at adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd o'r safle, er niwed i'r amgylchedd o'i gwmpas, yn groes i ofynion Polisiâu'r Cynllun Datblygu Lleol.

Ar Mai'r 24ain 2023, yn dilyn cyngor cyfreithiol annibynnol, cyhoeddwyd

Gorchymyn Gorfodaeth ar Merthyr (De Cymru) Cyf a phobl eraill sydd a diddordeb yn y tir yn Ffos-Y-Fran. Mae'r hysbysiad yn gofyn am y canlynol:

- Atal tynnu glo o'r tir.
 - Atal gwaith datblygu ar y tir o dan amodau'r caniatad cynllunio a dderbyniawr ar Fai 6 2011, ond am waith adfer a gymeradwywyd.
- Bydd yr hysbysiad yn dod i rym ar Fehefin 27ain 2023 (mae angen cyfnod statudol o 28 diwrnod) oni bai bod apel yn cael ei gyflwyno i'r Arolygydd Cynllunio cyn y dyddiad hwn. Unwaith y daw'r hysbysiad i rym, mae gan y datblygwr 28 diwrnod i gydymffurfio. Bydd methu gwneud hyn yn gallu arwain at gynnydd pellach yn y camau gorfodi.

Mae gweithredwr y pwll mewn trafodaethau cynnar gyda'r Cyngor i ystyried strategaeth adfer wedi ei diweddaru.

Eisiau gwybod mwy am GEWYNNAU GO IAWN?

Wrth ddefnyddio cewynau go iawn byddwch yn arbed tua £500 y babi, a galli ddefnyddio un cewyn go iawn bob dydd arbed 730 cewyn rhag cael eu taflu gan bob plentyn

Am fwy o wybodaeth am gwynnau go iawn ewch at www.merthyr.gov.uk/resident/home-and-recycling/ neu e-bostiwch wasteservices@merthyr.gov.uk

Mae cynrych mislif amidro AM DDIM*

nawr ar gael i'w casglu o ganolfannau hamdden a llyfrgelloedd lleol

Eilech at www.merthyr.gov.uk/binsandrecycling neu ffoniwch ni ar 01685 725000 i ddod o hyd i'ch man casglu lleol

Carwch eich mislif, Carwch eich planed!

* Nes bod y cylid yn dod i ben

SIOP BYWYD NEWYDD ARCHFARCHNAD BYWYD NEWYDD PENTREBACH

Bachwch fargen! Uned 20

Parc Diwidianol Merthyr Tudful Pentrebach CF48 4DR

07827 519325

WASTE SAVERS

A New Lease of Life Pentrebach

ORAU AGOR!

Croesawu gyfraniadau* 9.30am-3.30pm dydd Mawrth-dydd Sadwrn

Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr!

Dydd Llun - 9.30am-4.30pm
Dydd Mawrth - 9.30am-4.30pm
Dydd Mercher - 9.30am-4.30pm
Dydd Iau - 9.30am-4.30pm
Dydd Gwener - 9.30am-4.30pm
Dydd Sadwrn - 9.30am-4.00pm
Dydd Sul Ar Gau

* Cyngor Merthyr Tudful yn gysylltu gyda'r cyfraniadwyr

Byddwch yn barod am y 20mya



O 17 Medi,

bydd y rhan fwyaf o derfynau cyflymder 30mya yn newid i 20mya.

#BarodAm20mya



I weld pa ffyrdd fydd yn destun cyfyngiad 20mya a lle bydd eithriadau, ewch i: datamap.gov.wales/maps/roads-affected-by-changes-to-the-speed-limit-on-re

Am rhagor o wybodaeth ewch i: gov.wales/getreadyfor20



Cau Heol Pontsarn

Ddechrau mis Medi bydd y rhan o Ffordd Faenor rhwng Y Ty Sbaenaid a Thafarn Aberglais ar gau am tua chwe mis er mwyn i waith peiranyddol gael ei wneud i sefydlogi'r arglawdd uwchben y ffordd.

Mae tirlithriadau lluosog yn y blynyddoedd diwethaf yn golygu bod

y gwaith hwn yn anochel, ac er ein bod yn gwerthfawrogi'r anghyfleustra y gall hyn ei achosi, rydym yn gobeithio y bydd trigolion a defnyddwyr ffyrdd yn deall yr angen brys i wneud y gwaith hwn.

Bydd y manylion am y ffordd ar gau yn cael eu rhannu ar ein gwefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol yn nes at yr amser.

Diweddariad Digarboneiddio

Ers 2019/2020 mae'r cyngor wedi lleihau allyriadau carbon adeiladau, goleuadau strydoedd a theithiau busnes a defnydd tir o 27%



Ynni Solar:

Rydym wedi gosod 2,400 panel solar ar ein hadeiladau, sy'n cyfartal i arbed tua 1785 tCO2e / £2,863,634



Goleuadau LED:

Rydym wedi uwchraddio tua 6,900 golau LED, gan arbed £96,000 y flwyddyn Mae genym darged i bob golau yn ein hadeiladau fod yn LED erbyn 2030



Ynni Effeithlon:

Mae'r cyngor wedi cofrestru gyda'r Gymdeithas Ynni Effeithlon



Ffilyd:

Yn y 12 mis diwethaf, rydym wedi newid 6 cerbyd trydan yn ein hadrannau TG, Ailgylchu a Pharcio, gyda 8 cerbyd pellach ar y ffordd yn 2023.



Mae genym 38 pwynt gwefru yn darparu isadeiledd gwefru i tua 75 cerbyd.

Mae gan y Cyngor 3 cerbyd sgubo; mae cynlluniau yn cael eu datblygu i newid rhain gyda cherbydau

Bioamrywiaeth:

Mae 16 lleoliad glaswelltir yn yr Awdurdod Lleol yn cael eu rheoli gan ein peiriannau 'torri a chaglu'. Mae hyn yn golygu bod 4.5 hectar o laswelltir yn cael ei reoli ar gyfer bioamrywiaeth (sy'n cyfartal i tua 8 cae peldroed).

Llythrennedd Carbon:

Rydym yn falch i ennill Gwobr Efydd Llythrennedd Carbon



Gwastraff:

Y ganran o wastraff a ailgylchwyd ym Merthyr Tudful yn 2021/22 oedd 67%



Goleuadau Strydoedd:

Rydym wedi gosod tua 7,504 uned o oleuadau stryd LED. Mae hyn wedi arbed 74% o ddefnydd ynni goleuadau stryd.

Rydym yn newid ein harwyddion traffig, croesfannau pelican, a toucan i lampau LED, a fydd yn arbed hyd yn oed fwy o ynni.



Torri gwair am amrywiaeth

Yma ym Merthyr Tudful, rydym yn torri rhan sylweddol o'n tir yn rheolaidd, gan adael ar ôl ddarn bach o laswellt nad yw'n rhoi fawr o werth i'r amgylchedd.

Rydym yn newid y rheolaeth hon yn raddol mewn rhai ardaloedd i gynhyrchu cynefin mwy naturiol sy'n gyfoethog mewn blodau gwyllt ac yn bwydo peillwyr. Efallai eich bod wedi sylwi ar ein

harwyddion yn cyfeirio at y lleoliadau hyn. Am ragor o wybodaeth ewch i merthyr.gov.uk/biodiversity



ADFYWIO



Tracio datblygiadau y pwll nofio ar safle micro

Mae safle micro wedi ei lansio gan Lles@ Merthyr a'r Cyngor Bwrdeistref Sirol er mwyn diweddarau preswylwyr am ail ddatblygu cyfleusterau pwll nofio yng Nghanolfan Hamdden Merthyr Tudful. Bydd y dudalen ar wefan y Cyngor a Lles@ Merthyr yn cynnwys gwybodaeth am brisiau ac aelodaeth a fydd ar gael yn y ganolfan a diwedddarad am y sefyllfa adeiladu ddiweddaraf yn y pwll nofio. Ewch i: merthyrleisuredevelopments.co.uk

Mae'r gwaith yn mynd rhagddi yn dda, gyda'r gobaith o'i gwblhau yn yr Hydref gyda'r cyfleusterau newydd yn cynnwys prif bwl chwe lon a phwll dysgu benodol gyda rhaglen ddysgu nofio lawn. Bydd hefyd bwl sblash, wedi ei gynllunio i ddatblygu hyder plant ifanc yn y dwr, a bydd y cyfleusterau newid yn cael eu diweddarau a'i hailgynllunio. Bydd yr adnewyddiad yn cynnwys mesurau datgarboneiddio fel gosod pypiau gwres ffynhonnell aer mwy effeithlon yn lle boeleri tanwydd nwy, y rhagwelir y bydd yn torri allyriadau

carbon 61 y cant ac yn creu dyfodol mwy cynaliadwy i'r ganolfan.

Mae'r prosiect yn cael ei gyflwyno gan yr arbenigwr datblygu hamdden Alliance Leisure drwy Fframwaith Hamdden y DU.

Diwedddariad y parc sglefr fyrddio

Mae gwaith ar fin cychwyn ar barc sglefr fyrddio fwy modern ac addas i'r teulu cyfan a bydd yn cael ei adeiladu yn agosach i brif fynedfa'r ganolfan hamdden. Bydd y cyfleuster yn fwy hygyrch ac wedi ei integreiddio i gynllun tirlunio newydd gyda choed, perthi, llwybrau a mannau i eistedd.

Gobeithir y bydd y parc sglefr fyrddio wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.



Prif bensaer yn cael ei benodi ar gyfer trawsnewid y Synagog

Mae cwmni uchel ei barch gyda phrofiad wrth gynllunio a datblygu safleoedd treftadaeth wedi cael ei apwyntio i arwain Project Synagog Merthyr Tudful.

Mae gwaith contract diweddar y Penseiri GWP yn cynnwys gweithio ar Ddistyllfa a Chanolfan Ymwelwyr Wisgi Penderyn yn Abertawe ac adnewyddu ac addasu Theatr y Palas yn Abertawe.

Cyhoeddodd y Sefydliad am Dreftadaeth Iddewig bod Greenwood Projects yn ymgynghorwyr costau ar ddatblygiad y Ganolfan Dreftadaeth Iddewig.

Dwedodd Cadeirydd y Pwyllgor Llywio Stephen Goldman: "Mae'r apwyntiadau hyn yn gam arall

ymlaen i'r project cyffrous hwn. Rydym wrth ein bodd cael GWPA a Greenwood ar y project ac yn edrych ymlaen gweithio gyda nhw."

Mae'r Synagog ymysgu adeiladau hanesyddol pwysicaf Merthyr Tudful-gwerthwyd darlun ohono yn ddiweddar gan Lowry am £277,000.

Ond, mae'r adeilad wedi bod yn wag ers 2006 ac roedd mewn perygl cyn i'r Sefydliad ei brynu yn 2019. Mae cyllid wedi ei ddiogelu trwy Gronfa Treftadaeth y Loteri, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Llywodraeth Cymru i droi'r adeilad yn Ganolfan Dreftadaeth, yn adrodd straeon am yr adeilad a hanes y gymuned Iddewig ym Merthyr Tudful.

Taith Rithiol Merthyr Tudful

Mae Merthyr Tudful ar fin chwarae rhan flaenllaw mewn ymgyrch genedlaethol i hybu twristiaeth a hynny ar y cyd â lansiad taith rithiol y Cyngor o'n tirwedd anhygoel.

Merthyr Rhithiol – Taith 360° sydd yn tywys ymwelwyr i brif atyniadau'r Fwrdeistref Sirol gan nodi mannau o ddiddordeb sydd ag arwyddocâd diwylliannol. Canolbwyntir ar Daith Taf a'i chysylltiadau â chyfleusterau, atyniadau a busnesau.

Dynodwyd eleni'n flwyddyn Llwybrau/ Wales by Trails gan Croeso Cymru, sef y ddiweddaraf mewn 'cyfres o flynyddoedd thematig' – yn dilyn Antur, Chwedl, Môr, Darganfod a'r Awyr Agored.

Mae ymgyrch 'Llwybrau' i'w gweld ar y teledu, ledled y DU ac yn cael ei chefnogi gan hysbysebu digidol a deunyddiau marchnata mewn prif orsafoedd tanddaearol yn Llundain. Mae'n annog ymwelwyr a

phreswylwyr i 'guradu eu teithiau epig eu hunain' yng Nghymru yn ystod 2023.

Fel rhan o bartneriaeth y Cyngor â phrosiect rhyngwladol, Trail Gazers, mae'r Tîm Rheoli Cyrchfan yn Ymweld â Merthyr / Visit Merthyr wedi comisiynu Taith Rithiol Merthyr.

Cafodd Trail Gazers, Ardal yr Iwerydd ei hariannu gan yr UE ac mae'n annog pobl yn y DU, Iwerddon, Sbaen, Portiwgal a Ffrainc 'oddi ar y Llwybrau ac i'r cymunedau lleol gwledig i drochi mewn profiadau diwylliannol, coginio a phrofiadau bywyd newydd.'

Dyweddodd y Cyngorydd Geraint Thomas, Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ac Aelod o'r Cabinet ar gyfer Adfywio a Diogelu'r Cyhoedd: "Yn ystod y pandemig, roedd natur yn hafan i ni a defnyddiodd mwya'r bobl nag erioed o'r blaen ein Llwybrau."

"Mae'r diddordeb hwnnw wedi

parhau wedi'r pandemig a dengys ymchwil fod yn aml, well gan bobl dreulio'u gwyliau yn mwynhau profiadau mwy ystyrlon a phersonol mewn lleoliadau prydfwrth sydd yn cael eu hystyried i fod oddi ar y llwybr arferol nac mewn cyrchfannau gwyliau mwy confensiynol a phoblogaidd."

Mae Ymweld â Merthyr / Visit Merthyr yn gobeithio y bydd yr ychwanegiad newydd hwn a fydd ar gael ar ein gwefan yn visitmerthyr.co.uk yn gwella'r profiad i ymwelwyr ac yn gymorth iddynt gynllunio'u hanturiaethau yn yr ardal, lawer yn haws.

- Nodwch nad yw'r Daith yn cynnwys busnesau canol y dref ond maent yn cael eu rhestru ar Fap Rhyngweithiol Ymweld â Merthyr / Visit Merthyr: visitmerthyr.co.uk/map-page Bydd y tîm yn parhau i geisio ychwanegu rhagor o leoliadau a fideos, mewn ymateb i boblogrwydd y rhaglen rithiol

Gwaith yn cychwyn ar 121 o dai newydd yn Nhwynrodyn

Mae gwaith wedi dechrau ar adeiladu 121 o gartrefi newydd 'o safon' ar safle ger Llwyn Llwyfen, Twynrodyn.

Mynychodd Arweinydd y Cyngor y Cyngorydd Geraint Thomas seremoni a oedd yn nodi dechrau rhaglen adeiladu sylweddol a fydd yn cynnwys ffordd fynediad a chyffordd newydd.

Bydd gan yr ystâd gymysgedd o gartrefi, o un i bum ystafell wely, ac mae'r datblygwr Persimmon yn partneru â Thai Cymoedd Merthyr i ddarparu 12 eiddo rhent ar y safle.

Bydd y Cyngor hefyd yn derbyn £300,632 gan Persimmon drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol a ddefnyddir i gyflawni gwelliannau yn lleol.

Dyweddodd y Cyngorydd Geraint Thomas: "Rwy'n falch bod Persimmon yn darparu 12 eiddo



fel rhan o gyfraniad yr adeiladwr tai i'r gymuned leol, a bydd arian yr Ardoll Seilwaith Cymunedol yn fuddsoddiad i'w groesawu ym Merthyr Tudful."

Mae'r cynlluniau'n cynnwys ardal sylweddol o fannau gwyrdd agored yn rhan ogleddol y safle a fydd yn cynnwys dringo clogfeini, boncyffion cydbwysio

a thwmpathau glaswelltog. Yn y rhan ddeheuol, bydd ardal fawr aml-ddefnydd o fannau gwyrdd agored.

Bydd llwybr Teithio Llesol hefyd yn cael ei osod ar gyfer cerddwyr a beicwyr, gan gysylltu â'r maes chwarae a Phenheolferthyr i'r gogledd, a'r mannau agored a'r llwybrau presennol i'r de.

Cymoedd Antur ar stepen ein drws


Mae map gwybodaeth wedi'i ddylunio i hyrwyddo'r cyfoeth o weithgareddau awyr agored cyffrous sydd ar gael ar draws Merthyr Tudful wedi'i gynhyrchu gan dîm Croeso Merthyr y Cyngor.

Mae'r daflen 'Cymoedd Antur' yn manylu ar ystod amrywiol o brofiadau gwefreiddiol y fwrdeistref sirol, o BikePark Wales i Rock UK Summit Centre, ynghyd â chyrchfannau ymwelwyr tawelach fel Parc Cyfarthfa.

Yn ogystal ag atyniadau allweddol fel Parkwood Outdoors Dolygaer, Parc Taf Bargoed a Zip World, mae'r map hefyd yn amlgu'r tri llwybr bwrdeistrefol traws-sirol Taith Taf, Llwybr Trevithick a'r Llwybr Celtaidd. Dywedodd y Cyngorydd Clive Tovey, Eiriolwr Twristiaeth y Cyngor: "Mae ymgyrch Cymoedd Antur wir yn cyfleu hanfod Merthyr Tudful, gan gyflwyno amrywiaeth anhygoel o atyniadau a llwybrau sy'n ymgorffori harddwch naturiol y rhanbarth ar ysbryd o antur."

"Mae'n arddangos tirweddau hudolus y fwrdeistref sirol a'r ardaloedd cyfagos, gan wahodd ymwelwyr i archwilio'r cyfleoedd awyr agored syfrdanol sydd ganddi i'w cynnig."

Gellir lawrlwytho'r map o wefan Croeso Merthyr: visitmerthyr.co.uk/things-to-do/adventure-map/





ADFYWIO

Cynllun Cyflogadwyedd y Cyngor yn cyrraedd rownd derfynol gwobrau cenedlaethol



preifat a diwydiant, mae'n cynnig addysg, gwaith, hyfforddiant a chymorth i fynychu coleg neu brifysgol.

Mae'r cyngor hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag EE ar gynllun peilot, 'Seren y Dyfodol' ar gyfer pobl ifanc sydd rhwng 14 ac

16 oed ac sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r cynllun yn cynorthwyo pobl ifanc â gwaith cartref, profiad gwaith a weithgareddau chwaraeon o'u dewis hwy a hynny am gyfnod o ddwy flynedd. Maent yn sicrhau dderbyn prentisiaeth EE os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Fel rhan o'r cynllun, mae cynllun Marchnad Lafur Ganolradd y Cyngor (ILM) sydd yn lleoliad gwaith, cyflogedig, chwe mis o hyd wedi cynnig lle ar gyfer tri pherson ifanc mewn swyddi gwahanol yn CBSMT.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Geraint Thomas: "Rydym yn hynod falch fod ein cynllun Llwybrau i Waith yn cael ei gydnabod, yn genedlaethol am ei gyflawniadau. Mae'n gydnabyddiaeth deilwng o waith caled y tim sydd wedi rhoi cyfle i bobl ifanc sydd o dan anfantais i lwyddo mewn bywyd."

Mae Llwybrau i Waith yn cefnogi'r sawl sydd yn gadael yr ysgol drwy gynnig cyngor gyrfao, mynediad i gyflogaeth, rhaglenni hyfforddi a chynlluniau prentisiaeth yn y Cyngor a thryw rwydweithiau busnesau

16 oed ac sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r cynllun yn cynorthwyo pobl ifanc â gwaith cartref, profiad gwaith a weithgareddau chwaraeon o'u dewis hwy a hynny am gyfnod o ddwy flynedd. Maent yn sicrhau dderbyn prentisiaeth EE os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Fel rhan o'r cynllun, mae cynllun Marchnad Lafur Ganolradd y Cyngor (ILM) sydd yn lleoliad gwaith, cyflogedig, chwe mis o hyd wedi cynnig lle ar gyfer tri pherson ifanc mewn swyddi gwahanol yn CBSMT.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Geraint Thomas:

"Rydym yn hynod falch fod ein cynllun Llwybrau i Waith yn cael ei gydnabod, yn genedlaethol am ei gyflawniadau. Mae'n gydnabyddiaeth deilwng o waith caled y tim sydd wedi rhoi cyfle i bobl ifanc sydd o dan anfantais i lwyddo mewn bywyd."

Y siop arbenigol a fydd yn gyrchfan i redwyr y Cymoedd!



Ni fydd rhaid i redwyr Cymoedd De Cymru orfod teithio i gael dadansoddiad osgo aer gyfer yr esgidiau rhedeg mwyaf addas bellach-diolch i siop redeg arbenigol cyntaf Merthyr Tudful.

Sole Mate ym Mhontmorlais yw'r unig siop o'i math rhwng Caerdydd a Lerpwl. Mae ganddynt ddewis helaeth o esgidiau, dillad ac offer eraill ac yn cynnig asesiad bio fecanyddol ac mae ffisiotherapydd sy'n arbenigo mewn anafiadau chwaraeon yn ymweld dwywaith yr wythnos.

Mae'r perchennog Paul Thomas yn

cydnabod dylanwad rhedeg am helpu ei iechyd meddwl ac mae'n anelu at 'adeiladu cymuned' o amgylch y busnes, gyda 'byrddau sgwrsio' yn y siop i helpu gydag unigrwydd ble gall pobl ddod mewn am banded a sgwrs. Mae Paul a'i bartner Lucy Powell, sydd hefyd yn gweithio yno, yn chwilio i gyflogi therapydd iechyd meddwl hefyd.

Gan ei fod erioed wedi rhedeg ei fusnes ei hun o'r blaen, cysylltodd Paul gyda Chyngor Bwrdeistref Merthyr Tudful i holi am leoliad a death i gysylltiad gyda Chanolfan Fenter Merthyr Tudful (CMMT) am gymorth gyda chreu cynllun busnes.

Gweithiodd nesaf gyda Banc Datblygiad Cymru i gael cymorth gydag ariannu'r stoc a goroesi'r chwe mis cyntaf. Cefnogodd y Cyngor Sole Mate gyda chostau sefydlu'r busnes ac ariannu pethau fel dodrefnu'r siop, system wrth ladrad, teledu Cylch Cyfyng a modelau i ddangos y dillad.

sole-mate.uk

01685 673988

instagram.com/solemate

runninguk/

facebook.com/solematerunning

Hwb hyfforddiant a thai unigryw yn cael ei agor gan y Gweinidog



Mae canolfan hyfforddiant a phreswyl unigryw wedi cael ei agor ym Merthyr Tudful, gan Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, Julie Morgan AS.

Mae Hwb Cymunedol Cwmpawd a Fflatiau Pen y Dre yn y Gurnos, sef yr hen Ganolfan Ddysgu'r Gymdogaeth, wedi ei ail ddatblygu gyda £1.4m o gyllid gan y Cyngor Bwrdeistref Sirol a phartneriaid eraill.

Yn wreiddiol yn fflatiau preswyl, mae'r ganolfan ers chwarter canrif yn ganolfan addysgol i helpu pobl ifanc di waith i ennill sgiliau ar gyfer gwaith. Bydd yn parhau i gynnig hyfforddiant a chyfleusterau cyflogadwyedd, gydag un o'r adeiladau wedi ei droi yn bump fflat hunan cynhaliol Ar gyfer pobl ifanc rhwng 16-24 oed sydd mewn peryg o ddigartrefedd.

Mae'r project wedi cael ei gefnogi gan £1,129,174 oddi wrth Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg- a gyllidir gan Lywodraeth Cymru - fel rhan o Brif Raglen Gyfalaf Gofal Integredig, sydd wedi adnabod gweithio gyda phobl ifanc a phlant mewn gofal fel prif flaenoriaeth.

Daeth £260,000 ychwanegol o



Raglen buddsoddiad project Cyfalaf y Cyngor a £129,115 a ddyfarnwyd gan Gronfa Gofal Tai Llywodraeth Cymru i alluogi'r project i gael ei gwblhau yn 2022.

Mae Hyb Cymunedol Cwmpawd yn cynnig y cyfle i gymryd rhan mewn gweithdai ar les ac ymwybyddiaeth ofalgar, sgiliau TG a digidol, gwaith coed, hyfforddiant manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid, gweinyddu busnes a harddwch a thrin gwallt.

Ochr yn ochr â'n hyfforddiant ffurfiol, mae cyfle i fynychu mwy o grwpiau cymunedol megis boreau coffi, cerameg a gweithgareddau crefft. Gwahoddir unrhyw un 16+ oed sy'n dymuno hyfforddi, uwchsgilio neu sy'n dechrau hobi neu weithgaredd newydd i ddod - ffoniwch 01685 727099 i gofrestru diddordeb. Mae mynediad i



weithgareddau a chysrsiau yn rhad ac am ddim.

Dros y gwyliau, bydd yr Hyb yn cynnal rhaglen haf sy'n addas i'r teulu cyfan gydag amrywiaeth o weithgareddau. Bydd hwn yn rhedeg ar ddydd Llun a dydd Mercher trwy gydol gwyliau'r haf gan ddechrau 31 Gorffennaf. Mae'r rhaglen yn rhad ac am ddim i'w mynychu ond rhaid i unrhyw blant dan 16 oed fod yng nghwmni oedolyn cyfrifol.

Ailddatblygu'r Clastir

Mae cynnig i ailddatblygu cyn safle'r arosfa fysiau ar y Clastir i ddarparu ardal agored atyniadol wedi ei gyflwyno ar gyfer caniatâd cynllunio.

Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC), fel ymgynghorydd cynllunio statudol, i ymateb i'r materion a godwyd am y potensial i lifogydd o ganlyniad i'r project. Yn dibynnu ar dderbyn caniatâd cynllunio, y disgwyl yw i'r gwaith gychwyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Home Bargains yn derbyn cefnogaeth staffio- gyda chefnogaeth CiW+

Cymerodd siop Home Bargains Merthyr Tudful, a adnewyddwyd yn ddiweddar, dîm o staff newydd gyda chymorth ymgyrch recriwtio a drefnwyd gan dim Cymunedau i Waith a Mwy (CfW+).

Ar ôl i bartneriaid y Ganolfan Byd Gwaith gysylltu â nhw, archebodd CiW+ nifer o ystafelloedd am bedwar diwrnod yng Nghanolfan Fusnes Orbit a chynigiodd apwyntiadau a sesiynau galw heibio i ddarparu ymgeiswyr gael cyfweiliad a chymorth paratoi.

Roedd hyn yn cynnwys mentoriaid CiW+ a Swyddog Cyswllt Cyflogaeth y rhaglen yn darparu amgylchedd hamddenol, gyda'r mynychwyr yn gallu defnyddio offer TG i lenwi ffurflenni cais ar-lein.

Cawsant hefyd awgrymiadau cyfweiliad ac adnoddau printiedig i helpu gyda pharatoi ar gyfer cyfweiliadau, a chafodd eu CVs eu diweddarau a'u teilwra i fodloni'r meini prawf swyddi.

O'r cyfanswm o 78 o recriwtiaid newydd yn siop Parc Manwerthu Pentrebach, roedd naw wedi cymryd

rhan yn niwrnodau recriwtio'r Ganolfan Orbit, tra bod 31 o'r rhai a fynychodd wedi cofrestru ar gyfer cymorth cyflogadwyedd gan CiW+.

Agorwyd y siop yn swyddogol gan Arweinydd y Cyngor y Cynghorydd Geraint Thomas, a ddywedodd: "Nid yn unig mae'n wych gweld y siop hynod boblogaidd Home Bargains yn ehangu ac yn cyflogi cymaint mwy o bobl, ond mae hefyd yn braf gweld ygefnogaeth barhaus mae ein tîm Cymunedai i Waith+ yn rhoi i geiswyr gwaith ym Merthyr Tudful."



PRIDE

Ddydd Sadwrn 17 Mehefin, ymunodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ag awdurdodau lleol cyfagos yn Ne Ddwyrain a Chanolbarth Cymru i ddangos cefnogaeth i'r gymuned LHDTICIA+ a helpu i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.

"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Cynghorwyr a'r Swyddogion hynny a fynychodd Pride Cymru eto eleni fel rhan o rwydwaith y Cynghorau Balch. Roedd yn ddigwyddiad bywiog a lliwgar iawn gyda miloedd o bobl ar strydoedd ein prifddinas. Mae Pride yn amser i ddathlu'r datblygiadau niferus a wnaed yn y degawdau diwethaf, mae mwy o waith i'w wneud o hyd ac mae angen bod yn wyliadwrs i sicrhau nad yw'r datblygiadau hyn yn cael eu torri'n raddol."

Ar 1 Mehefin, codwyd y baner Pride y tu allan i'r Ganolfan Ddinesig.



Rhaglen gyffrous newydd, wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru.

TSC+



YDYCH CHI RHWNG 16 A 19 OED?

**Barod i ddatblygu eich sgiliau?
Diddordeb mewn profiad gwaith â thâl?**

- ➡ Cewch ad-daliadau costau teithio.
- ➡ Lwfans prydiau bwyd dyddiol.
- ➡ Gallwch dderbyn hyd at £60 yr wythnos.
- ➡ Profiad gwaith cyflogedig.
- ➡ Gweithgareddau lles.
- ➡ Cynigir cymhwysterau Lefel 2 a Cherdyn CSCS gydag hyfforddiant wedi'i deilwra i'ch anghenion.



Does dim angen chwilio
ymhellach - gallem ni@WREC
eich cefnogi gyda'r uchod i gyd,
a llawer mwy. Cysylltwch â ni neu
galwch heibio ein swyddfa am sgwrs.



T: 01685 702470

E: wales@wrecltd.co.uk

Swyddfeydd 13, 14 ac 15, Ty Crownford, Swan Street, Merthyr Tudful CF47 8EU


Whitehead & Ross
Education & Consulting